OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1772 (Cy.168)

CEFN GWLAD, CYMRU

Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*9 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym - -	*31 Gorffennaf 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 28F(6) a 28L(8) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**1**) a pharagraffau 11(2) a 17(3) o Atodlen 11 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**2**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2002.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "apêl cydsyniad" ("*consent appeal*") yw apêl o dan adrannau 28F(1) neu 28F(2) o Ddeddf 1981;

ystyr "apêl gwrthodiad tybiedig" ("*deemed refusal appeal*") yw apêl cydsyniad o dan adran 28F(2) o Ddeddf 1981;

ystyr "apêl hysbysiad rheoli" ("*management notice appeal*") yw apêl o dan adran 28L(1) o Ddeddf 1981;

(**1**) 1981 p.69; amnewidiwyd adran 28 gan adrannau 28 i 28R o dan adran 75(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) ac Atodlen 9, paragraff 1 iddi.
(**2**) 2000 p.37.
(**3**) Cafodd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: *gweler* Erthygl 2 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, fel y'i diwygiwyd gan adran 99 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

ystyr "apêl hysbysiad stop" ("*stop notice appeal*") yw apêl o dan baragraff 11(1) o Atodlen 11 i Ddeddf 2000;

ystyr "cyfathrebu electronig" ("*electronic communication*") yw cyfathrebu sy'n cael ei drosglwyddo (naill ai oddi wrth un person at un arall, oddi wrth un ddyfais at un arall neu oddi wrth berson i ddyfais neu i'r gwrthwyneb) drwy gyfrwng system delathrebu (o fewn ystyr Deddf Telathrebu 1984(**4**) neu drwy gyfrwng arall ond tra bydd mewn ffurf electronig;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

ystyr "Deddf 1981" ("*the Ddeddf 2000*") yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;

mae i "y dyddiad dechrau" ("*starting date*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 9(3);

ystyr "ffurf ddarllenadwy" ("*legible form*"), mewn perthynas â dogfen a anfonir drwy gyfrwng cyfathrebu electronig, yw ffurf y gellir ei darllen ar sgrîn cyfrifiadur;

ystyr "ffurf electronig" ("*electronic form*") yw ffurf y gellir storio arni, trosglwyddo iddi ac oddi wrthi, a ffurf y gellir ei darllen drwy gyfrwng cyfrifiadur;

ystyr "hysbysiad apêl" ("*notice of appeal*") yw hysbysiad y mae apêl cydsyniad, apêl hysbysiad rheoli neu apêl hysbysiad stop, yn ôl y digwydd, yn cael ei dwyn;

ystyr "person penodedig" ("*appointed person*") yw person a benodwyd am y tro gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 28F(8) neu adran 28L(10) o Ddeddf 1981 i ystyried y sylwadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i apêl neu, os yw'r apêl ar ffurf ymchwiliad neu wrandawiad lleol, i lywio'r ymchwiliad neu'r gwrandawiad, ac i benderfynu'r apêl os bydd wedi ei awdurdodi i wneud hynny;

ystyr "rheoliad parti 7(1)(b)" ("*regulation 7(1)(b) party*") yw person y mae'n ofynnol anfon hysbysiad ato gan reoliad 7(1)(b) o'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "yr hysbysiad o benderfyniad" ("*the decision notice*")—

(a) yn achos apêl cydsyniad, yw hysbysiad yn rhoi cydsyniad y Cyngor yn ddarostyngedig i amodau neu am gyfnod cyfyngedig o dan adran 28E(4) o Ddeddf 1981 neu'r hysbysiad a roddir gan y Cyngor o dan adran 28E(5) neu adran 28E(6) o Ddeddf 1981, yn ôl y digwydd;

(b) yn achos apêl hysbysiad rheoli, yw'r hysbysiad a roddir gan y Cyngor o dan adran 28K o Ddeddf 1981;

(c) yn achos apêl hysbysiad stop, yw'r hysbysiad a roddir gan y Cyngor o dan baragraff 9(3) o Atodlen 11 i Ddeddf 2000;

y mae'r apêl yn berthnasol iddo.

Cynnwys hysbysiad apêl

3. Rhaid i hysbysiad apêl—

(a) datgan enw llawn a chyfeiriad yr apelydd ac unrhyw berson a awdurdodwyd i weithredu ar ran yr apelydd mewn perthynas â'r apêl;

(b) ac eithrio mewn achos o apêl gwrthodiad tybiedig, amgau copi o'r hysbysiad o benderfyniad;

(c) yn achos apêl cydsyniad sy'n ymwneud â gwrthodiad i roi cydsyniad ar gyfer gweithrediad, roi manylion o'r gweithrediad y gwrthodwyd cydsyniad ar ei gyfer (oni roddir manylion o'r fath yn yr hysbysiad o benderfyniad);

(ch) yn achos apêl hysbysiad rheoli y mae seiliau'r apêl yn cynnwys sail y dylai rhyw berchennog neu feddiannydd tir heblaw'r apelydd gymryd y cyfan neu rai o'r mesurau a

(**4**) 1984 p.12.

bennir yn yr hysbysiad o benderfyniad, neu dalu'r cyfan neu ran o'u costau, ddatgan enw llawn a chyfeiriad unrhyw berson o'r fath;

(d) datgan seiliau'r apêl;

(dd) os bydd yr apelydd yn dymuno cael gwrandawiad gan berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig), ddatgan hynny a datgan ymhellach os yw'r apelydd yn dymuno cael y gwrandawiad mewn ymchwiliad lleol neu, ar y llaw arall, mewn gwrandawiad, ac os mewn gwrandawiad, os yw'r apelydd yn dymuno i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat os bydd y person sy'n gwrando'r apêl yn cytuno â hynny; ac

(e) os yw'r apelydd a'r Cyngor wedi cytuno'n ysgrifenedig y dylai'r amser i'r hysbysiad apêl ddod i law fod yn hwy na'r hyn a bennir gan Ddeddf 1981 neu, yn achos apêl hysbysiad rheoli, y dylai'r cyfnod sy'n gymwys o dan Reoliad 6(2)(a)(i) fod yn hwy na dau fis, amgau copi o'r ddogfen sy'n cofnodi'r cytundeb hwnnw.

4. Caiff hysbysiad apêl fod yn Gymraeg neu Saesneg ond os yw'r apelydd yn dymuno i'r apêl gael ei thrin yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng un o'r ddwy iaith heblaw'r un y mynegir yr hysbysiad apêl ynddi, dylai cais i'r perwyl hwnnw gael ei gynnwys yn yr hysbysiad apêl neu gael ei amgau gydag'r hysbysiad.

Dechrau apêl

5. Dechreuir apêl drwy anfon hysbysiad apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Camau i'w cymryd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl cael hysbysiad apêl

6.—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn hysbysiad apêl, anfon copi ohono i'r Cyngor, ynghyd â chopi o unrhyw ddogfen arall a amgaewyd gydag ef.

(2) Nid yw paragraff (1) uchod yn gymwys i'r canlynol—

(a) i hysbysiad apêl y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gael:

(i) yn achos unrhyw apêl heblaw apêl gwrthodiad tybiedig, ar ôl i gyfnod o ddau fis ddod i ben (neu unrhyw gyfnod hwy y cytunwyd arno'n ysgrifenedig gan yr apelydd a'r Cyngor) gan ddechrau ar ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad; neu

(ii) yn achos apêl gwrthodiad tybiedig, ar ôl i gyfnod o chwe mis ddod i ben (neu'r cyfnod hwy hwnnw y cytunwyd arno'n ysgrifenedig gan yr apelydd a'r Cyngor) gan ddechrau ar y dyddiad yr anfonodd yr apelydd hysbysiad i'r Cyngor o gynnig i gyflawni'r gweithrediad yr ymdrinnir ag ef fel pe bai'r cydsyniad ar ei gyfer wedi cael ei wrthod;

(b) i hysbysiad apêl y mae'r apelydd, mewn manylyn perthnasol, wedi methu cydymffurfio â gofynion rheoliad 3 mewn perthynas ag ef, ond mewn achos o'r fath caiff y Cynulliad Cenedlaethol roi hysbysiad i'r apelydd o natur y methiant hwnnw a'r camau sy'n angenrheidiol i'w gywiro ac os bydd yr apelydd, cyn pen 14 diwrnod ar ôl cael hysbysiad o'r fath yn cymryd y camau gofynnol, ni fydd yr is-baragraff bellach yn gymwys i'r hysbysiad apêl o dan sylw.

Y camau sydd i'w cymryd gan y Cyngor ar ôl cael copi o'r hysbysiad apêl

7.—(1) Rhaid i'r Cyngor, o fewn 14 diwrnod ar ôl cael copi o'r hysbysiad apêl gan y Cynulliad Cenedlaethol roi hysbysiad ysgrifenedig—

(a) yn achos apêl cydsyniad, i unrhyw berson (heblaw'r apelydd) a wnaeth sylwadau i'r Cyngor mewn perthynas â'r penderfyniad ar ran y Cyngor y mae'r apêl yn berthnasol iddo (neu,

yn achos apêl gwrthodiad tybiedig, mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad y gallasai'r Cyngor fod wedi'i gymryd pe na bai'r apelydd wedi ymdrin â'r Cyngor fel pe bai wedi gwrthod cydsynio);

(b) yn achos apêl hysbysiad rheoli y mae seiliau'r apêl mewn perthynas ag ef yn cynnwys sail y dylai rhyw berchennog neu feddiannydd tir heblaw'r apelydd gymryd pob mesur neu unrhyw rai o'r mesurau a bennir yn yr hysbysiad o benderfyniad, neu dalu eu costau yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i unrhyw berson o'r fath;

(c) i unrhyw berson arall y mae'n ymddangos i'r Cyngor fod ganddo diddordeb digonol ym mhwnc yr apêl.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1)—

(a) nodi'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig y mae'r apêl yn berthnasol iddo;

(b) cael ei ddyddio;

(c) amgau copi o'r hysbysiad apêl ac unrhyw hysbysiad o benderfyniad;

(ch) datgan y caiff y derbynnydd, o fewn 28 diwrnod sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad—

(i) gwneud sylwadau ysgrifenedig, a all fod naill ai yn Gymraeg neu Saesneg, i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r apêl ac y bydd, yn yr achos hwnnw, gopïau o'r sylwadau hynny'n cael eu darparu i'r apelydd ac i'r Cyngor; a

(ii) gwneud cais ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol i gael ei hysbysu am y penderfyniad ar yr apêl;

(d) datgan y bydd derbynnydd sy'n gwneud sylwadau yn unol â pharagraff (2)(ch)(i), os bydd ymchwiliad lleol i'w gynnal, neu os bydd gwrandawiad i'w gynnal a fydd yn gyhoeddus yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn cael ei hysbysu o ddyddiad a lleoliad yr ymchwiliad neu'r gwrandawiad.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1) a anfonir at barti rheoliad 7(1)(b) gynnwys datganiad y dylai unrhyw barti sy'n dymuno cael gwrandawiad gan berson wedi'i benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig) amgau datganiad i'r perwyl hwnnw gydag unrhyw sylwadau a wneir i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac os yw'n gwneud felly, y dylai amgau datganiad pellach a yw'r parti hwnnw'n dymuno cael ei glywed mewn ymchwiliad lleol neu, ar y llaw arall, mewn gwrandawiad.

Ymateb gan y Cyngor i apêl

8. Rhaid i'r Cyngor, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol gopi o hysbysiad apêl, anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, at yr apelydd ac at unrhyw barti rheoliad 7(1)(b)—

(a) datganiad a yw'n gwrthwynebu'r apêl ac, os felly, ei seiliau dros wneud hynny;

(b) yn achos apêl cydsyniad, copi o unrhyw hysbysiad perthnasol o gynnig i gyflawni'r gweithrediad (ynghyd â'r planiau a'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef) a roddwyd i'r Cyngor o dan adran 28E(1) o Ddeddf 1981;

(c) copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng yr apelydd a'r Cyngor;

(ch) copïau o unrhyw sylwadau a roddwyd i'r Cyngor gan unrhyw berson heblaw'r apelydd mewn perthynas â'r penderfyniad ar ran y Cyngor y mae'r apêl yn berthnasol iddo (neu, yn achos apêl gwrthodiad tybiedig, mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad y gallasai'r Cyngor fod wedi'i gymryd pe na bai'r apelydd wedi ymdrin â'r Cyngor fel pe bai wedi gwrthod cydsynio);

(d) datganiad o enwau a chyfeiriadau unrhyw bersonau y mae'r Cyngor wedi anfon hysbysiad atynt o dan reoliad 7(1) a'r dyddiad yr anfonwyd hysbysiad o'r fath; ac